



Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni / Annual Governors Report to Parents

2022-2023

Cyflwyniad / Introduction

Annwyl Deuluoedd,

Ar ran y Bwrdd Llywodraethol, hoffwn gyflwyno adroddiad y bwrdd i rieni a gofalwyr, mae'r adroddiad yn manylu ar berfformiad yr ysgol a'r prif gyflawniadau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn trafod y cyfnod rhwng Medi 2022 ac Awst 2023. Dros y flwyddyn, mae camau aruthrol wedi'u cymryd tuag at welliant parhaus yr addysgu a'r dysgu fel sylfaen gref i holl fywyd ein hysgol yn ogystal â sefydlu systemau clir a chyson ar draws yr ysgol. ysgol sy'n cael effaith fawr ar les a datblygiad academiaidd plant. Rydym wedi bod yn parhau i weithio'n galed i roi'r Ddeddf ADY newydd a Chwricwlwm i Gymru ar waith. Mewn adroddiad o'r fath, ni allwn egluro'n ddigonol holl ddigwyddiadau, cynnydd ac agweddau o fywyd Ysgol Panteg. Felly, fe welwch flas a chrynodeb o'r prif bwyntiau. Fel bob amser, mae croeso i chi gysylltu i drafod y cynnwys a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Dear Families,

On behalf of the Governing Board, I would like to present the board's report to parents and carers, the report details the school's performance and the main achievements and events during the year. This report, therefore, discusses the period between September 2022 and August 2023. Over the year, tremendous steps have been taken towards continuous improvement of teaching and learning as a strong foundation for all our school life as well as establishing clear and consistent systems across the school which have a major impact on children's well-being and academic development. We have been continuing to working hard to implement the new ALN Act and Curriculum for Wales. In such a report, we cannot adequately explain all the events, progress and aspects of life at Ysgol Panteg. So, you will see a taste and a summary of main points. As always, you are welcome to get in touch to discuss the content and ask any questions you may have.

Yn gywir / Yours sincerely,

Dr. Matthew Williamson-Dicken

Dr. Matthew James Williamson-Dicken
Pennaeth/Headteacher



Neges gan Cadeirydd y Llywodraethwyr / A Message from the Chair of Governors

Annwyl Deuluoedd,

Croeso i'n hadroddiad blynyddol i rieni ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022-23. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod cynhyrchiol a phrysur iawn i'r ysgol. Dan arweiniad y Pennaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cychwynnodd yr ysgol ar gyfres uchelgeisiol o gynlluniau datblygu i wella safonau a phrofiadau addysgu ar gyfer pob dysgwr. Y llynedd oedd y flwyddyn ysgol ddi-dor gyntaf ers y pandemig, gyda'r cyfyngiadau wedi'u codi'n llawn, braf oedd gweld clybiau ar ôl ysgol, tripiâu ysgol, cyngherddau, gwasanaethau dosbarth a digwyddiadau elusennol yn cael eu hailgyflwyno.

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn academiaidd ddiwethaf, byddai'n esgeulus i mi beidio â sôn am ein harolygiad diweddar gan Estyn a gynhaliwyd ym mis Medi 2023. Mae'r adroddiad yn fewnwelediad gwych i'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud fel ysgol a chymuned dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Bydd yr argymhellion a nodir gan Estyn yn ffocws allweddol i'r ysgol a'r Corff Llywodraethol ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon.

Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i ddiolch i bob aelod o staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod yr adroddiad ymhellach, cysylltwch â ni.

Dear Families,

Welcome to our annual report to parents for the academic year 2022-23. The past year was a very productive and busy time for the school. Led by the Head Teacher and Senior Leadership Team, the school embarked on an ambitious set of development plans to improve standards and teaching experiences for all learners. Last year was the first full uninterrupted school year since the pandemic, with restrictions fully lifted, it was wonderful to see the re-introduction of after-school clubs, school trips, concerts, class assemblies and charity events.

Whilst this report is focused on the last academic year, it would be remiss for me not to mention our recent Estyn inspection conducted in September 2023. The report is a fantastic insight into the progress we have made as a school and community over the last few years. The recommendations identified by Estyn will be a key focus for the school and Governing Body for this academic year.

I'm sure you will join me in thanking each member of staff for their dedication and hard work throughout last year. If you have any questions or would like to discuss the report further, please get in touch.

Cofion cynnes,

Huw Coburn

Huw Coburn

Cadeirydd y Llywodraethwyr / Chair of Governors

Ar ran Bwrdd Llywodraethol Ysgol Panteg / On behalf of the Governing Body of Ysgol Panteg

Cefndir yr Ysgol / *The School's Background*

Agorodd Ysgol Panteg ei drysau ym mis Medi 2010 ar y safle wreiddiol ar Stryd Rhydychen yn Griffithstown gyda 36 o blant. Plannodd y plant hyn 36 o fylbiau cennin pedr sy'n cael eu cynrychioli gan y 36 cenhinen bedr ar fathodyn yr ysgol. Wrth i'r ysgol dyfu lleolwyd Ysgol Panteg ar ddau safle yn Griffithstown a Kemys Fawr, Sebastopol. Ers mis Chwefror 2017, rydym wedi ein lleoli ar ein safle bresennol ar Heol yr Orsaf. Ar hyn o bryd mae gennym dros 400 o ddisgyblion yn hannu o ardal Pont-y-Pŵl, Griffithstown, New Inn a Sebastopol. Mae'r disgyblion yn mwynhau ac yn profi addysg gyfrwng Cymraeg a chyfoeth o brofiadau cyffrous. Ein amcanion yw:

- Creu amgylchedd croesawgar a diogel lle mae plant, staff a'r rhieni'n hyderus ac yn llawn cymhelliant;
- Sicrhau bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys, ei werthfawrogi a'i barchu waeth beth fo'u gallu, rhyw, anabled, ethnigrwydd, crefydd, cefndir teuluol, diwylliant neu iaith y cartref;
- Annog plant i wneud eu gorau glas, gan sicrhau bod y heriau addysgu'n gwella sgiliau a hunan-hyder plant;
- Rhoi amser i blant siarad am eu dysgu ag oedolion ac i blant eraill;
- Darparu profiadau dysgu sy'n meithrin creadigrwydd, brwdfrydedd a chwilfrydedd plant;
- Darparu profiadau dysgu sy'n meithrin hunan-barch a helpu plant i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ag eraill yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach;
- Helpu plant i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dibynadwy, annibynnol a chadarnhaol;
- Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn ein gadael yn unigolion hyderus yn credu ynddo'i hun ond yn dangos parch at eraill a ffurfio a chynnal perthnasoedd ag eraill plant ac oedolion.

Ysgol Panteg opened its doors in September 2010 on the original site on Oxford Street in Griffithstown with 36 children. These children planted 36 daffodil bulbs which are represented by the 36 daffodils on the school badge. As the school grew Ysgol Panteg was then situated on two sites in Griffithstown and Kemys Fawr, Sebastopol. Since February 2017, we have been located on our fantastic site on Station Road. At present we have over 400 pupils coming from the Pontypool, Griffithstown, New Inn and Sebastopol area all enjoying and experiencing Welsh medium education and a wealth of exciting experiences. Our aims are:

- To create a welcoming and secure environment where children, staff and parents are confident and motivated;*
- To ensure that all children feel included, valued and respected regardless of their ability, gender, disability, ethnicity, religion, family background, culture or home language;*
- To encourage children to do their 'very best', ensuring that the teaching challenges each and every child to enhance their skills and self-confidence;*
- To give children time to talk about their learning to adults and other children;*
- To provide learning experiences which foster children's creativity, enthusiasm and curiosity;*
- To provide learning experiences which foster self-esteem and help children to develop positive relationships with others both within the school and in the wider community;*
- To help children develop into reliable, independent and positive citizens;*
- Our aim is to ensure that every child leaves us as a confident individual, believing in themselves and showing respect and concern for others.*

Sail a Diben Ein Datblygiad a Gwelliant / The Foundation and Aims of Our Development and Improvement

Ein cenhadaeth ar gyfer Ysgol Panteg yw datblygu ein plant mewn sefydliad diogel a hapus lle rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i greu dinasyddion hyderus ar gyfer y dyfodol. Rydym yn falch o roi iaith a hanes Cymru wrth galon ein haddysgu, wrth gofleidio technolegau newydd a meithrin balchder yn ein cymunedau. Trwy wrando ar ein plant a chefnogi ein teuluoedd, byddwn yn meithrin amgylchedd parchus lle gallwn ddathlu ein llwyddiannau a helpu ein gilydd. Mae hyn yn meddwl:

Sail gref ar gyfer safonau academiaidd a lles
Dysgwyr angerddol
Lledaenu gornelion a pharatoi disgyblion ar gyfer bywyd
Darparu profiadau a chyfleoedd cyfoethog
Bachu ar gyfleoedd arloesi
Ymfalchïo yn ein Cymreictod, iaith, hunaniaeth a threftadaeth
Cynnu tân dwerder, chwilfrydedd a chymhelliant
Cenhadaeth gref sy'n agor drysau
A strong mission that opens doors
Teulu caredig ac uchelgeisiol


Our mission for Ysgol Panteg is to develop our children in a safe and happy place where we work together to create confident citizens for the future. We are proud to place the language and history of Wales at the heart of our teaching while embracing new technologies and fostering pride in our communities. By listening to our children and supporting our families, we will build a respectful and nurturing environment where we can celebrate our successes and help each other. This means:

*A firm foundation for academic and wellbeing standards
Fired up learners
Expanding horizons and preparing children for life
Rich learning experiences and opportunities
Grasping chances for innovation
Loving our Welshness, language, identity and heritage
Lighting the fire of bravery, curiosity and motivation
A strong mission that opens doors
Kind and ambitious family*

Ein Gwerthoedd / Our Values

Fel cymuned, rydym wedi bod yn ymchwilio i 'beth sy'n gwneud i Panteg dicio'. Rydym wedi cynnal sesiynau gyda'r plant i weld beth sy'n eu cyffroi, sut y dylai ein hysgol edrych a beth sy'n bwysig iddynt. Rydym wedi anfon holiaduron ac wedi derbyn ymatebion o ansawdd sydd wedi ein helpu i weld beth sy'n bwysig i chi fel teuluoedd. Rydym wedi cynnal trafodaethau staff a sesiynau hyfforddi am ein gwerthoedd fel ysgol yn ogystal â'r hyn sy'n hanfodol i'n llwyddiant fel teulu a chymuned ysgol. Rydym wedi anfon holiaduron llywodraethwyr. Yn ein harchwiliadau ni, daeth pedwar peth allweddol drwodd ar draws pob set o bobl. Yn sail i bwrpas ein hysgol, fel yr amlinellir yn ein arwyddair ('Meithrin Meddyliau Craff'), mae pedwar bloc adeiladu – dyma ein gwerthoedd. Fel ysgol, rydym am fyw ac anadlu'r pedwar gwerth craidd hyn a dal ein hunain atynt fel ein nodau a'n dyheadau. Gyda'n gilydd mae'n rhaid i ni ymrwymo i fod yn garedig wrth ein gilydd ac yn deulu cyd-gefnogol. Rhaid inni ymrwymo i fod yn angerddol gyda chymhelliant i ddysgu a sicrhau lles pob aelod o'n cymuned. Rhaid i ni fod yn uchelgeisiol a mynnu ar disgwyliadau uchel ar gyfer y gymuned hon, yr ysgol hon a phob unigolyn.

As a community, we have been investigating 'what makes Panteg tick'. We've held sessions with the children to see what excites them, what they think our school should look like and what is important to them. We've sent questionnaires and received quality responses which have helped us to see what is important to you as families. We've held staff discussions and training sessions about our values as a school as well as what is vital for our success as a school family and community. We've sent governor questionnaires. In our exploration, four key things came through across all sets of people. Underpinning our school's purpose, as outlined in our motto ('Meithrin Meddyliau Craff' – 'Nurturing Sharp Minds'), there are four building blocks – these are our values. As a school, we want to live and breathe these four core values and hold ourselves to them as our aims and aspirations. Together we must commit to being kind to one another and a co-supportive family. We must commit to being fired up with motivation for learning, the Welsh language and ensuring the wellbeing of all members of our community. We must be ambitious and hold high expectations for this community, this school and each and every individual.



Yn Ysgol Panteg, rydyn ni'n garedig sy'n meddwl:

- rydyn ni'n gefnogol;
- rydyn ni'n dangos parch tuag at bawb a phopeth sydd o'n cwmpas;
- rydyn ni'n gwrtais;
- rydyn ni'n feddylgar;
- rydyn ni'n empathetig;
- rydyn ni'n gwrando ar ein gilydd;
- rydyn ni'n trin pawb yn deg;
- rydyn ni'n dangos ymrwymiad at bobl eraill a'u cynnwys;
- rydyn ni'n deall bod pawb yn werthfawr;
- rydyn ni'n gofalu am ein hunain ac eraill;
- rydyn ni'n dathlu ein gwahaniaethau, ein cryfderau a'n unigolrwydd.

At Ysgol Panteg, we are kind which means:

- we are supportive;
- we show respect for everyone and everything around us;
- we are polite;
- we are thoughtful;
- we are empathetic;
- we listen to each other;
- we treat everyone fairly;
- we show commitment to others and include them;
- we understand that everyone is valuable;
- we look after ourselves and others; we celebrate our differences, strengths and individuality.

Caredig



Kind

Yn Ysgol Panteg, rydyn ni'n deuluol sy'n meddwl:

- rydyn ni'n ofalgar o eraill a'n hunain;
- rydyn ni'n gynnes tuag at ein gilydd;
- rydyn ni'n ymfalchio yn ein Cymreictod a'n hiaith;
- rydyn ni'n cyfrannu at y gymuned ehangach;
- rydyn ni'n deall bod gan pob person llais a'r hawl i gael i'w clywed;
- rydyn ni'n cydweithio ac yn deall gyda'n gilydd gallwn gorchfygu unrhyw her;
- rydyn ni'n magu hyder trwy rhyngweithio;
- rydyn ni'n cymuned cyd-ddibynnol hapus ac angerddol;
- rydyn ni'n gyfeillgar a chroesawgar.

At Ysgol Panteg, we are a family which means that:

- we are caring of others and ourselves;
- we are warm towards each other;
- we take pride in our Welshness and our language;
- we contribute to the wider community;
- we understand that every person has a voice and they have the right to be listened to;
- we work together and understand together we can overcome almost any challenge;
- we build confidence through interacting and working together;
- we are a happy and 'fired up' interdependent community;
- we are friendly and welcoming.

Teulu



Family

Yn Ysgol Panteg, rydyn ni'n angerddol sy'n meddwl:

- rydyn ni'n meddu ar tân yn ein boliau dros ein hiaith, ein haddysg a theulu Panteg;
- rydyn ni'n parchu bod pawb yn wahanol ac yn unigryw;
- rydyn ni'n benderfynol fe fydd tegwch i bawb ar bob achlysur;
- rydyn ni'n herio stereoteipiau;
- rydyn ni'n benderfynol bydd pawb yn llwyddiannus;
- rydyn ni'n frwd ac yn awyddus i cyd-lwyddo ym mhob maes ag ymdrechwn;
- rydyn ni'n mwynhau dysgu ac yn dysgwyr gydol oes.

At Ysgol Panteg, we are 'fired up' because:

- we have a fire in our hearts for our language, our education and the family of Panteg family;
- we respect everyone as different and unique;
- we are determined that there will always be fairness for all;
- we challenge stereotypes;
- we are determined that everyone will be successful;
- we are passionate and keen to achieve success in all areas we strive for;
- we enjoy learning and are lifelong learners.

Angerddol



Fired Up

Yn Ysgol Panteg, rydyn yn uchelgeisiol sy'n meddwl:

- rydyn ni'n herio'n hunain i wella;
- rydyn ni'n dangos gwydnwch wrth ddelio gyda sefyllfaoedd anghyffredin neu anodd;
- rydyn ni'n cymryd balchder yn ein gwaith;
- rydyn ni'n mentro yn ein dysgu ac yn trio pethau newydd, arloesol;
- rydyn ni'n benderfynol i ddyfalbarhau gyda ein gwaith nes ein bod ni'n llwyddo;
- rydyn ni'n gweithio'n annibynnol gan feddwl dros ein hunain;
- rydyn ni'n gweithio fel rhan o dimoedd a theulu ehangach Panteg;
- rydyn ni'n ymwybodol o'n targedau ac yn gweithio arnyh nhw yn rheolaidd.

At Ysgol Panteg, we are ambitious which means:

- we challenge ourselves to improve;
- we show resilience in dealing with unfamiliar or difficult situations;
- we take pride in our work;
- we take sensible risks in our learning and try new, innovative things;
- we are determined to persevere with our work until we succeed;
- we work independently and think for ourselves;
- we work as part of a team and wider Panteg family;
- we are aware of our targets and consistently work on them.

Uchelgeisiol



Ambitious

Cefnogi Elusennau / Supporting Charities

Trwy haelioni ein disgyblion a'u teuluoedd, roeddem yn gallu cefnogi nifer o elusennau yn ystod 2022-23 gan gynnwys:

Plant Mewn Angen

Diwrnod y Trwynau Cochion

Achub y Plant

Apêl Pabïau

Race for Life (Ymchwil Cancr)

Gofal Cancr Macmillan

Through the generosity of our pupils and their families, we were able to support many charities during 2022-23. These included:

Children in Need

Comic Relief

Save the Children

Poppy Appeal

Race for Life (Cancer Research)

Macmillan Cancer Care

Clybiau Allgyrsiol / Extra-Curricular Clubs

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd clybiau allgyrsiol ar gyfartaledd 9 clwb yr wythnos. Rhedwyd rhai o'r clybiau gan yr ysgol a rhai mewn partneriaeth gyda Menter Iaith a'r Urdd. Roedd y clybiau hyn yn rhai creadigol, coginio, celf a chreffft, cerddorol a chadw'n heini.

During the year, extra-curricular clubs were held on average 9 clubs a week. Some of the clubs were run by the school and some in partnership with Menter Iaith and the Urdd. These clubs were creative, cooking, arts and crafts, musical and keeping fit.

Corff Llywodraethol 2022-2023 / *The Governing Body 2022-2023*

Cadeirydd / <i>Chair</i>	Mr. Huw Coburn	Term Ends 23/03/2026
Is-Gadeirydd / <i>Vice-Chair</i>	Mr. David Childs	Term Ends 12/10/2023
Rhieni Llywodraethwyr / <i>Parent Governors</i>	Mr. Martyn Redwood	Term Ends 03/05/2026
	Mr. David Childs	Term Ends 12/10/2023
	Mrs. Victoria Horlor	Term Ends 12/10/2023
	Mrs. Alexandra West	Term Ends 03/05/2026
Cynrychiolydd Athrawon / <i>Teachers Representative</i>	Mr. Thomas Rainsbury	Term Ends 30/09/2024
Cynrychiolydd Staff / <i>Staff Representative</i>	Miss Jamie-Leigh Sibthorpe	Term Ends 25/01/2026
Community Governor	Mrs. Melissa Garrett	Term Ends 23/03/2024
	Rev. Jon Dickerson	Term Ends 20/09/2025
	Mr. Huw Coburn	Term Ends 23/03/2026
Community Council Governor	Mr. Nathan Warren	Term Ends 17/05/2026
Awdurdod Lleol / <i>Local Authority</i>	Mr. Denis Mills	Term Ends 23/03/2024
	Mr. Mathew Woolfall-Jones	Term Ends 14/02/2027
	Mr. Gary Kent	Term Ended 17/01/2023
	Miss Rhianne Lewis	Term Ended 17/01/2023
Pennaeth / <i>Head</i>	Dr. Matthew Williamson-Dicken	

Swyddogaeth y Corff Llywodraethol / *Functions of the Governing Body*

Cynhaliwyd chwe chyfarfod gyda'r corff llywodraeth llawn ac mae'r is-bwyllgorau wedi cyfarfod yn rheolaidd. Ym mhob cyfarfod llawn, derbyniodd y llywodraethwyr adroddiad llafar neu ysgrifenedig gan y Pennaeth ar yr ysgol a'i waith. Daethpwyd â nifer o faterion eraill i sylw'r llywodraethwyr o dan y penawdau 'Eitemau gan Gyfarwyddwr Addysg Torfaen' ac 'Eitemau o'r GCA'. Mae cofnodion yr holl gyfarfodydd hyn ar gael yn yr ysgol i unrhyw un sy'n dymuno eu darllen.

Mae'r llywodraethwyr wedi mynychu hyfforddiant ac maent yn rhoi cymorth a chefnogaeth i'r ysgol pryd sydd angen.

Mae pob llywodraethwr yn arweinydd ar o leiaf un agwedd ar fywyd yr ysgol, gan weithio ar y cyd i wella darpariaeth a chodi safonau. Mae'r Corff Llywodraethol yn monitro blaenoriaethau gwella'r ysgol yn rheolaidd ac yn chwarae rhan annatod wrth sicrhau llwyddiant parhaus yr ysgol.

Six meetings have been held of the full governing body and the sub-committees have met regularly. At each full meeting the governors received and considered the Headteacher's verbal or written report on the school and its work. A number of wider issues were brought to the governors' attention under the heading 'Items from the Torfaen Chief Education Officer' and 'Items from the Education Achievement Service'. Minutes of all these meetings are available at the school for anyone who wishes to read them.

The governors have attended training and have given assistance and support to the school as and when required.

Each governor is a leader of at least one aspect of the school's life, working collaboratively to improve provision and raise standards. The Governing Body regularly monitors school improvement priorities and plays an integral role in ensuring the continued success of the school.

Staff yr Ysgol 2022-2023 / The School Staff 2022-2023

School Leadership

06/2021- Ymlaen/Onwards	Dr. Matthew James Williamson Dicken Pennaeth / Head
----------------------------	--

Athrawon / Teachers

Miss Angharad Browning	Meithrin / Nursery
Miss Rebecca Brown	Derbyn / Reception (tan Pasg 2023 / Year 1 (until Easter 2023))
Mrs. Elin Mai-Johnson	Derbyn / Reception (o Dymor yr Haf 2022) / Year 1 (from the Summer Term 2022)
Miss Caitlin Harley	Derbyn / Reception
Miss Vienna Robinson	Blwyddyn 1 / Year 1
Mr. Morgan Hand	Blwyddyn 1 / Year 1
Ms. Nerys Phillips	Blwyddyn 2 / Year 2
Mrs Kaysha Wulder (Mamolaeth)	Blwyddyn 2 / Year 2
Miss Rebeca Blackmore	Blwyddyn 2 / Year 2
Mrs Catrin Wallis Evans	Blwyddyn 3 / Year 3
Mrs Angharad Jones	Blwyddyn 3 / Year 3
Miss Caitlin O'Sullivan	Blwyddyn 3 / Year 3
Miss Bethan Jones	Blwyddyn 4 / Year 4
Mr Simon Alexander	Blwyddyn 4 / Year 4
Miss Alana Parry	Blwyddyn 5 / Year 5
Miss Tanwen Davies	Blwyddyn 5 (tan Nadolig 2022) / Year 5 (until Christmas 2022)
Miss Bethany Llewellyn	Blwyddyn 5 / Year 5
Mrs. Emily Morgan	Blwyddyn 6 (tan Nadolig 2022) / Year 6 (until Christmas 2022)
Miss Olivia Carroll	Blwyddyn 6 (o Nadolig 2022) / Year 6 (from Christmas 2022)
Mr Dafydd Evans	Blwyddyn 6 / Year 6
Miss Nadine Williams	CPA / PPA Cover
Heini Jones	Athrawes Ymyrraeth (tan Nadolig 2022) / Intervention Teacher (until Christmas 2022)
Miss Jennifer Radcliffe	Athrawes Ymyrraeth (to Nadolig 2022) / Intervention Teacher (o Christmas 2022)
Mr. Robert Vaughan	Athro Ymyrraeth / Intervention Teacher

Cynorthwyr / Teaching Assistants

Mr. Joseph Masterton	Miss Elle Parker
Miss Jamie-Leigh Sibthorpe	Miss Mwynwen James
Miss Jessica Couzens (Gap Year)	Mrs. Kate Williams
Miss Amy Harper	Miss Claire Roberts-Lloyd
Miss Katie Noakes (Gap Year)	Miss Elenid Marsh
Miss Bethan Roberts	Miss Charlotte Manley
Miss Katie Bowen	Miss Lauren Sweet
Miss Natasha Sawday	Miss Taylor Rogers
Miss Rebekka Vickers	

Swyddfa / Office

Mrs. Melanie Tudball	Mrs. Siân Redwood
Miss Catherine Duke	

Goruwchylwyr Cinio / Lunchtime Supervisors

Sandra Bartlett-Jones	Collette Bailey
Glenys Parsons	Sian Parsons
Claire Harris	Rebecca Luce

Gofalwyr Safle / Caretakers

Mr. Andrew Davies Rheolwr Safle / Site Manager

Nifer o Ddisgyblion (Medi 2022) / Number of Pupils (September 2022)

Ym Medi 2022, roedd 403 o ddisgyblion ar y gofrestr – 80 yng Nham Cynnydd 1, 172 yng Ngham Cynnydd 2 a 151 yng Ngham Cynnydd 3. Cofrestrwyd 35 Meithrin (0.5) gyda'r nifer yma yn cynyddu wrth i'r flwyddyn mynd yn ei blaen. Erbyn diwedd y flwyddyn academiaidd, roedd gennym 425 o blant ar y gofrestr.

Symudodd 47 disgybl i'r ysgol uwchradd ym mis Gorffennaf 2023.

In September 2022, there were 403 pupils on roll – 80 in Progress Step 1, 172 in Progress Step 2 and 151 in Progress Step 3. 35 Nursery pupils (0.5) were registered but this rose throughout the year. By the end of the academic year, we had 425 children on roll.

47 pupils transferred to secondary school in July 2023.

Cost Cinio Ysgol / Price of School Meals

Derbyn hyd at Flwyddyn 2 / Reception to Year 2: Rhad ac Am Ddim wedi Darparu gan Lywodraeth Cymru / Free of Charge Provided by the Welsh Government.

Blwyddyn 3-6 / Years 3-6: £2.40

Ers Medi 2023, mae pob plentyn yn Ysgol Panteg wedi gallu cael cinio rhad ac am ddim. / From September 2023, the all children at Ysgol Panteg have been entitled to free school meals.

Presenoldeb Medi 2022-Gorffennaf 2023 / Attendance September 2022-July 2023

Presennol / Present	91.90%
Absennol â Chaniatâd / Authorised Absence	6.13%
Abesennol heb Ganiatâd / Unauthorised Absence	1.97%

Rydym wedi monitro presenoldeb y disgyblion yn ofalus drwy gydol y flwyddyn. Mae'r ysgol yn parhau i osod pwyslais mawr ar gynyddu lefelau presenoldeb disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu llawer o strategaethau i wella lefelau presenoldeb, ac yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddog Lles Addysg. Ni fydd gwyliau yn ystod y tymor ysgol yn cael eu hawdurdodi, maent yn effeithio ar gynnydd disgybl ac yn atal yr ysgol rhag cyrraedd ei tharged presenoldeb. Mae'n anochel bod y pandemig wedi cael effaith enfawr ar bresenoldeb gyda llawer o ddisgyblion yn gorfod ynysu oherwydd eu bod yn symptomatig neu'n gysylltiadau agos â'r rhai a oedd wedi profi'n positif. Rydym wedi ymrwymo i godi presenoldeb yn Ysgol Panteg i dros 95% yn unol â strategaeth yr awdurdod lleol. Mae ein swyddog presenoldeb wedi bod yn gweithio gyda theuluoedd yn agos er mwyn cefnogi'r targed hwn.

We monitor attendance carefully throughout the year. The school continues to put great emphasis on raising attendance levels. The school has developed many strategies to improve the levels of attendance and works closely with the Education Welfare Officer. Holidays booked during the school term will not be authorised, they impact on a pupil's progress and prevent the school from reaching its attendance target. It is inevitable that the pandemic has had a huge impact on attendance with many pupils having to isolate due to them being symptomatic or being close contacts to those who had tested positive. We are committed to raising attendance at Ysgol Panteg to over 95% as per the local authority strategy. Our attendance officer has been working closely with families to improve attendance.

Newidiadau Staff / Staff Changes

Fe groeswon ni / We welcomed:

Lauren Sweet, Heini Jones, Jennifer Radcliffe, Vienna Robinson, Morgan Hand, Rebeca Blackmore, Olivia Carroll

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ffarwelio â sawl aelod o staff / During the year, we bid farewell to a number of staff:

Catherine Duke, Jessica Couzens, Dafydd Evans, Rebecca Brown, Melanie Tudball, Rhian Teague, Charlotte Manley, Katie Noakes, Heini Jones, Jennifer Radcliffe, Morgan Hand

Iaith yr Ysgol / Language of the School

Mae'r Ysgol yn ysgol gyfrwng Cymraeg. Mae'r plant, o'r Meithrin i Flwyddyn 2, yn derbyn eu holl brofiadau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ym Mlwyddyn 3, cyflwynir Saesneg ac yna mae disgyblion yn cael eu haddysgu drwy'r ddau gyfrwng, ond yn bennaf yn y Gymraeg.

The School is a Welsh Medium School. The children in Nursery to Year 2 receive all their learning experiences through the medium of Welsh. English is introduced in Year 3 and the pupils are taught through both mediums but predominantly in Welsh.

Y Cwricwlwm / The Curriculum

CYFLWYNIAD

Ein bwriad yn Ysgol Panteg yw datblygu dysgwyr hyderus ac annibynnol ac felly byddwn yn dilyn egwyddorion dysgu ac addysgu fel y maent yn cael ei diffinio yn y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' a 'Chwricwlwm i Gymru'. Byddwn yn cyflwyno cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol er mwyn datblygu'r disgyblion yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, ac yn unigolion iach a hyderus. Sail y cwricwlwm yw datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol. Mae'r rhain yn gwau i mewn ac yn rhedeg ar draws meysydd y cwricwlwm - ein nod yn syml yw darparu cyfleoedd cyfoethog a bythgofiadwy er mwyn sbarduno dychymyg pob un plentyn, gyda'r parodrwydd i herio gyda syniadau a geirfa, a chyd-destunau atyniadol.

YR IAITH GYMRAEG

Mae Ysgol Panteg yn ysgol gynradd Gymraeg ddynodedig. Addysgir pob pwn trwy gyfrwng Gymraeg ar wahân i Saesneg, a addysgir yng Nghyfnod Allweddol 2. Ni addysgir Saesneg yn y Cyfnod Sylfaen. Anogir pob plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob amser tra ar safle'r ysgol ac o fanteisio ar bob cyfle i'w ddefnyddio yn y gymuned ehangach.

MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Mae'r cwricwlwm ar gyfer plant o 3 i 16 oed yn gosod y paramedrau ar gyfer pob 'Maes Dysgu a Phrofiad'. Y rhain yw:

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Bydd pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cynnwys dimensiwn Cymreig, lle bo'n briodol, yn ogystal â phersbectif rhyngwladol a phersbectif y Deyrnas Unedig. Blynnyddoedd cynnar plentyn sydd yn ffurfio sail ei ddatblygiad yn y dyfodol. Yn y blynnyddoedd cynnar, hyn cawn y cyfle i ehangu agwedd yr holl blant tuag at ddysgu ac i roi cychwyn da iddynt ar eu taith i fod yn 'ddysgwyr gydol oes', sy'n allweddol at lwyddiant pob plentyn.

Byddwn yn dysgu'r holl fesydd dysgu drwy gyd-destunau dysgu traws-gwricwlaidd.

CYFATHREBU GWYBODAETH AR DDYSGU

Ar ddechrau pob tymor, byddwn yn eich hysbysu o'n cyd-destun ar gyfer dysgu a gweithgareddau am y cyfnod hwnnw. Os ewch chi ar wyliau neu os oes gennych chi ddatliad arbennig yn y teulu, peidiwch ag anghofio anfon ffotograffau neu arteffactau i'r ysgol. Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod beth mae'ch plentyn yn ei wneud y tu allan i'r ysgol.

GWAITH CARTREF

Gofynnwn am gydweithrediad rhieni i sicrhau bod unrhyw waith cartref a osodir ar gyfer disgyblion yn cael ei gwblhau a'i drosglwyddo ar y diwrnod dynodedig. Anfonir cyfarwyddiadau llawn a chlir gydag unrhyw waith cartref a osodir er mwyn i rieni roi unrhyw gymorth angenrheidiol i ddisgyblion. Mae gwaith cartref yn amrywio yn dibynnu ar oedran y plant.

GWEITHDAI RHIENI A PHLANT

Un o brif flaenoriaethau'r ysgol yw sicrhau cysylltiad cryf a diogel rhwng y cartref a'r ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd, rydym yn cynnal sawl gweithdy sy'n ymwneud ag ystod eang o bynciau (er enghraifft: gwrth-fwllo, presenoldeb, e-ddiogelwch, dulliau darllen a rhifedd). Estynnwn groeso cynnes i bawb a disgwylir cynrychiolaeth gan bob teulu. Mae'r plant wrth eu boddau yn gweld eu rhieni yn yr ysgol ac yn eu hystafelloedd dosbarth!

ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD

Mae deddfwriaeth ddiweddar yn nodi'n glir bod addysg rhyw briodol yn elfen bwysig mewn ysgolion gan fod ganddynt gyfrifoldeb clir i sicrhau bod disgyblion wedi'u paratoi'n iawn ar gyfer bod yn oedolion. Fe'u annogir i roi sylw dyledus i ystyriaeth foesol a gwerth bywyd teuluol (fel rhan o'r Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb). Bydd y Llywodraethwyr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth, yn pennu dull gweithredu a pholisi cyffredinol ar gynnwys a threfn, ond sydd hefyd yn caniatáu rhyddid i athrawon arfer eu sgiliau proffesiynol wrth gyflawni'r cwricwlwm. Hysbysir rhieni am y cynnwys a gofynnir iddynt am ganiatâd i'w plentyn fynychu'r sesiynau. Bydd aelod benywaidd o staff yn bresennol gydag staff gwrywaidd er mwyn ymateb i

unrhyw gwestiynau perthnasol allai godi gyda Blynyddoedd 5 a 6. Bydd yr Awdurdod Iechyd Lleol yn darparu rhywun â chymwysterau addas i siarad â'r merched hŷn ar gais. Gwelwch y Pennaeth os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch yr agwedd yma o waith yr ysgol.

ADDYSG GREFYDDOL A GWASANAETHAU

Mae Addysg Grefyddol yn ofyniad statudol. Mae cynllun gwaith Addysg Grefyddol yr ysgol yn seiliedig ar ganllawiau'r Sir. Bydd y disgyblion yn astudio ac yn trafod amryw greddau crefyddol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Cynhelir amseroedd addoli ar y cŷd yn ddyddiol. Mae'r gwasanaethau yn Gristnogol eu natur. Mae gan rieni hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o wersi a/neu wasanaethau Addysg Grefyddol. Cysylltwch â'r Pennaeth os ydych chi'n dymuno tynnu'ch plentyn yn ôl o'r gweithgareddau hyn.

GWEITHGAREDDAU ALL-GYRSIOL

Trefnir clybiau ar ôl ysgol yn wythnosol - bydd gwybodaeth am glybiau gan gynnwys dyddiadau ac amseroedd yn cael ei dosbarthu'n dymhorol.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae cynllunio gofalus o gwricwlwm gwahaniaethol yn sicrhau bod pob disgybl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gweddu orau i'w allu. Mae monitro cynnydd y disgyblion yn rheolaidd yn galluogi athrawon i gynllunio gweithgareddau priodol. Bydd gweithgareddau a gynlluniwyd yn cefnogi rhai disgyblion ac yn ymestyn eraill er mwyn i bawb gyflawni eu potensial llawn. Ar adegau, bydd rhai disgyblion yn wynebu problemau mwy sylweddol, lle bydd angen help ychwanegol. Os oes angen cymorth ychwanegol, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni trwy alwad ffôn neu lythyr, gan eu gwahodd i drafod darpariaeth ychwanegol gyda'r pennaeth a chydlynnydd yr ysgol. Os penderfynir bod angen datganiad o anghenion addysgol arbennig ar ddisgybl, bydd yr ysgol yn cadw mewn cysylltiad agos â'r rhieni ac yn gweithio gyda nhw ac unrhyw asiantaethau allanol angenrheidiol.

INTRODUCTION

At Ysgol Panteg we aim to develop independent and confident learners. We follow the principles for learning and teaching as defined in the document 'Successful Futures' and 'Curriculum for Wales'. The school offers a wide ranging, balanced, relevant and differentiated curriculum. The aim is to foster ambitious and capable learners, enterprising and creative contributors, ethical and informed citizens and healthy and confident individuals. The curriculum is based on the development of cross curricular skills - Literacy, Numeracy and Digital Competency. These skills are developed across the areas of learning from Nursery to Year 6. Our aim is to provide rich and memorable learning experiences which will ignite the imagination of every child, with the readiness to use challenging ideas and vocabulary, and attractive contexts for learning.

THE WELSH LANGUAGE

Ysgol Panteg is a designated Welsh medium primary school. All subjects are taught through the medium of Welsh apart from English, which is taught in Key Stage 2. English is not taught in the Foundation Phase. All children are encouraged to use the Welsh language at all times whilst in school and take advantage of speaking the language at every opportunity in the wider community.

AREAS OF LEARNING AND EXPERIENCE

The curriculum for children from the ages 3 to 16 years old, sets the parameters for each 'Area of Learning and Experience'. These areas are:

- Expressive arts*
- Health and well-being*
- Humanities*
- Languages, literacy and communication*
- Mathematics and numeracy*
- Science and technology*

Each 'Area of Learning and Experience' includes, where appropriate, a Welsh dimension as well as an international and UK perspective. The early years of a child's life form the basis for their future development. It is during the early years that we have the opportunity to enhance each child's disposition to learning and to start them on the road to being 'lifelong learners', which is key to success for all children. We teach the above areas through cross-curricular contexts.

COMMUNICATING INFORMATION ABOUT LEARNING

At the beginning of each term, we will inform you of our context for learning and activities for that period. If you go on holidays or have a special celebration in the family, please don't forget to send photographs or artefacts to school. We are interested to know what your child is doing outside school.

HOMEWORK

We ask for parental co-operation in ensuring that any homework set for pupils is completed and handed in on the day required. Full and clear instructions will be sent with any homework set in order that parents may give pupils any help necessary. Homework varies depending on the age of the children.

PARENT AND CHILD WORKSHOPS

One of the school's main priorities is to ensure a strong and secure link between home and school. During the academic year, we hold several workshops relating to a wide range of school related subject matter (for example: anti-bullying, attendance, e-safety, approaches to reading and numeracy). We extend a warm welcome to everybody and expect to have representation from each family, the children thoroughly enjoy seeing parents in school and in their classrooms!

RELATIONSHIPS AND SEX EDUCATION

Recent legislation makes it clear that appropriate sex education is an important element in schools since they have a clear responsibility to ensure that pupils are properly prepared for adulthood. This will be done in such a manner that the pupils are encouraged to have due regard for moral consideration and the value of family life (as part of the Relationships and Sexuality Education Code). The Governors, in consultation with the Head teacher will determine the school's over-all approach and general policy on content and organisation, but allow teachers freedom to exercise their professional skills in delivering the curriculum. A female member of staff will attend to any problems that may arise with Year 5 or 6 pupils. The Local Health Authority will provide a suitably qualified person to talk to the older girls on request. Please see the Head Teacher if you have any questions or concerns over this aspect of our work in school.

RELIGIOUS EDUCATION AND ASSEMBLIES

Religious Education is a statutory requirement. The school's Religious Education scheme of work is based on the County's guidelines. The pupils will study and discuss various religious beliefs during their time in the school. A collective act of worship is held daily. The assemblies are broadly Christian in nature. Parents have the right to withdraw their child from Religious Education lessons and/or assemblies.

EXTRA-CURRICULAR ACTIVITIES

After school clubs are organised on a weekly basis - information on clubs including dates and times will be distributed on a termly basis.

ADDITIONAL LEARNING NEEDS

The careful planning of a differentiated curriculum ensures that each pupil takes part in activities best suited to his/her ability. Regular monitoring of the pupils' progress enables teachers to plan appropriate activities. Planned activities will support some pupils and will stretch others in order that all achieve their full potential. At times, some pupils will face more significant problems, where extra help will be required. If extra support is needed, the school will contact the parents by telephone call or letter, inviting them to discuss the provision of additional lessons with the head teacher and the co-ordinator.

Asesu: Cadw Cofnodion a Chyflwyno Gwybodaeth / Assessment: Record Keeping and Reporting

Mae asesu yn ganolog i weithred effeithiol y cwricwlwm, ac roedd y Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn gofyn i ddisgyblion gael eu hasesu yn ffurfiol pan yn 7 ac 11 oed. Ein nod, pob tro, yw asesu fod yn ffordd effeithiol ac ymarferol o sicrhau a chofnodi cynnydd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi:

1. Defnyddio dull trylwyr a chyson o farcio er mwyn 'cau'r bwllch'.
2. Datblygu ymhellach y systemau cymedroli.
3. Sicrhau bod asesu ar gyfer dysgu yn flaenllaw i bob gwrs.

Sicrhawyd bod yr adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn cynnwys sylwadau am gyflawniad, ynghyd â sylwadau ar ymdrech ac agwedd, ac yn cyfeirio at gynnydd y disgyblion yn unol â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Cynhaliwyd tair Cyfarfod Cynnydd a Lles Disgyblion yn y flwyddyn ysgol er mwyn rhoi cyfle i rieni / gwarchodwyr i siarad ag athro dosbarth eu plentyn, trafod gwaith eu plentyn ac i siarad â'r CADY. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn dros y ffôn a galwadau fidio eleni.

Dadansoddwyd canlyniadau'r profion a defnyddiwyd y canfyddiadau ac asesiadau athro i nodi targedau clir ar gyfer gwelliant ysgol ac er mwyn targedu a thracio disgyblion/grwpiau o ddysgwyr.

Mae'r ysgol wedi bod yn trosi i sicrhau bod systemau ADY yn cyfateb gyda'r deddfwriaeth newydd. Roedd enw/au 5 o ddisgyblion ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol o ran Anghenion Cymhleth a Chymhleth lawn.

Assessment is central to the effective act of the curriculum, and the Education Reform Act 1988 required pupils to be formally assessed at the age of 7 and 11. We always aim to assess that it is an effective and practical way of securing and recording progress in the national curriculum.

During the year we have:

- 1. Use a thorough and consistent marking method to 'close the gap'.*
- 2. Further developed the internal moderation.*
- 3. Ensure that assessment for learning is at the forefront of all lessons.*

It was ensured that the written reports for parents include comments on achievement, together with comments on effort and attitude, and referred to the pupils' progress in line with the literacy and numeracy framework and the digital competence framework. Three Pupil Progress and Wellbeing meetings were held in the school year to give parents / guardians the opportunity to talk to their child's class teacher, discuss their child's work and talk to the ALNCo. These meetings were held by phone and video calls this year.

The results of the tests were analyzed and the findings and teacher assessments were used to identify clear targets for school improvement and to target and track pupils/groups of learners.

The school has been translating to ensure that ALN systems match the new legislation. There were 5 pupils' name/s/s names on the Additional Learning Needs Register in terms of very complex and complex needs.

Blaenoriaethau'r Gwella'r Ysgol, 2022-2023 / School Improvement Priorities, 2022-2023

Blaenoriaeth	Pwy oedd yn Arwain?	Progress Towards Target
